Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

Dydd Mawrth 8 Mawrth 2022, 12.15 - 13.30pm

Cyfarfod ar-lein

Cofnodion y cyfarfod

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Rachel Lewis, Llywodraeth Cymru |
| Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol | David McKinney, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS<br>Hedges MS | Lorraine Morgan, ymgynghorydd annibynnol |
| A Hughes-Howells, swyddfa Dr Altaf Hussain AS | Andrea Nicholas-Jones, Action for Elders |
| Anna Jones, Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS | Faye Patton, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Huw Bendall, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA) | Michael Phillips, Age Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru |
| Gethin Edwards, Llywodraeth Cymru | Dr Roiyah Saltus, Prifysgol De Cymru |
| Carys Henry, Ymddiriedolwr Age Cymru | Barry Stephens, Cymru Egnïol |
| Rhys Jackson, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru; Prifysgol Aberystwyth |
| Sion Jones, Cymdeithas Alzheimer's Cymru | |

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Peredur Owen Griffiths AS | Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru |
| Charles Carter, Ymddiriedolwr Age Cymru | Joshua Hayman, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Maria Cheshire-Allen - Prifysgol Abertawe | Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro; Senedd Pobl Hŷn Cymru; |

Croesawodd Mike Hedges AS bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion a diweddariadau

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.

Camau i'w cymryd: Gan gyfeirio at drafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod blaenorol am gam-drin pobl hŷn, gofynnodd Mike Hedges AS i Ceri Cryer wahodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i gyfarfod o'r Grŵp yn y dyfodol.

Cyflwynodd Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio:

> Rydym i gyd yn mynd yn hŷn. Diolch i ddatblygiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel cenedl, mae gennym niferoedd cynyddol o bobl hŷn, mwy nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn creu heriau yn ogystal â chyfleoedd. Mae Covid-19 wedi cael effaith niweidiol sylweddol ar fywydau llawer o bobl hŷn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r pandemig hwn hefyd wedi ennyn y gorau yn llawer o bobl, gan ddangos parodrwydd a chryfder pobl hŷn i estyn allan, i wirfoddoli ac i helpu eraill mewn angen.
>
> Mae'r heriau sy'n ein hwynebu o ran cyflawni'r strategaeth hon yn rhai tymor byr a thymor hir. Yn y tymor byr mae angen inni fynd yn ôl ar y trywydd iawn wrth inni adfer o'r pandemig. Yn y tymor hir, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi datblygiad cymunedau sydd o blaid pobl hŷn ledled Cymru. Cymunedau sy'n galluogi pobl hŷn i fyw a heneiddio'n dda, a'u cefnogi i wneud hynny.
>
> Hoffwn ddechrau drwy bwysleisio pwysigrwydd y strategaeth hon yng nghyd-destun y Rhaglen Lywodraethu sydd newydd ei diwygio ac a fydd yn para tan 2026. Mae'r rhaglen hon yn cyd-fynd mewn cymaint o ffyrdd â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn y strategaeth.
>
> - Darparu triniaethau a gafodd eu gohirio yn sgil y pandemig
> - Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, a
> - Blaenoriaethu iechyd meddwl ac adolygu llwybrau cleifion.
>
> Mae'r rhain i gyd wedi eu cynnwys, a byddant yn cael eu darparu fel rhan o'n strategaeth Cymru o blaid Pobl Hŷn.
>
> Hoffwn roi trosolwg ichi o'r strategaeth, lle rydym wedi cyrraedd a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.
>
> Cafodd ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio ei chyhoeddi ar 7 Hydref 2021 yn dilyn rhaglen helaeth o ymgysylltu â phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Mae'r strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cymru sydd o blaid pobl hŷn, sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.

Mae'r strategaeth yn herio stereoteipiau sy’n rhagfarnllyd ar sail oedran, o bobl hŷn fel derbynwyr goddefol iechyd a gofal cymdeithasol - rwy'n pryderu y gallai'r pandemig fod wedi helpu i ymwreiddio stereoteipiau o'r fath ym meddyliau pobl. Mae'n rhy hawdd anwybyddu'r ffyrdd niferus y mae pobl hŷn yn cefnogi ein cymunedau i ffynnu.

Ni ddylem ni anghofio mai eu partneriaid, brodyr neu chwiorydd neu gymdogion, sydd yn aml yn hŷn eu hunain hefyd, sy’n gofalu am lawer o bobl hŷn sy'n byw gyda dementia, neu fod llawer o oedolion sy'n gweithio yn dibynnu ar neiniau a theidiau am ofal plant. Yn sicr, daeth gwerth gwirfoddolwyr hŷn i’r amlwg yn ystod y pandemig, gan fod llawer o elusennau’n ei chael hi’n anodd ymdopi heb eu cefnogaeth. Cyn Covid-19, yr amcangyfrif oedd bod cyfraniad pobl hŷn i economi Cymru dros £2 biliwn y flwyddyn.

Nod y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yw newid y ffordd yr ydym ni i gyd yn meddwl ac yn teimlo am heneiddio - rydym ni eisiau creu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at fynd yn hŷn. Cymru lle gall unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain gan deimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael ac yn hawdd ei gyrraedd os oes ei angen.

Diolch i ddatblygiadau arloesol ym maes gofal iechyd a thechnoleg, mae’r boblogaeth fyd-eang o bobl dros drigain oed wedi bod yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw grŵp oedran arall, ond dangosodd y pandemig pa mor hawdd y mae modd i’r enillion hyn gael eu dileu.

Dangosodd hefyd pa mor bwysig yw hi fod gwahanol genedlaethau’n deall ei gilydd fel y gallan nhw ddod at ei gilydd ar adegau o argyfwng a chwarae i'n cryfderau fel cymunedau cryf a bywiog ledled Cymru. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws cenedlaethau, sectorau a chymunedau yn hanfodol i greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn.

I wireddu’n gweledigaeth eleni, rydym ni wedi dyrannu £550,000 i awdurdodau lleol i gefnogi eu gwaith i fod yn sefydliadau sy’n cefnogi pobl hŷn ac i ennill aelodaeth o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Sy'n Cefnogi Pobl Hŷn. Er mwyn ennill aelodaeth, rhaid i awdurdodau lleol ddangos sut maen nhw'n ymgysylltu â phobl hŷn. Mae ein gweledigaeth ni’n cael ei rhannu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sy'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i awdurdodau lleol wrth iddyn nhw weithio tuag at statws sydd o blaid pobl hŷn. Byddaf yn cynyddu'r cyllid hwn i £1.1 miliwn ar gyfer 2022-23 gyda £50,000 i'w ddosbarthu i bob un o'r awdurdodau lleol. Bydd gan bob awdurdod swyddog arweiniol. Mae grŵp rhwydweithio yn cael ei gydlynu gan fy swyddogion i gefnogi'r ddarpariaeth a rhannu arferion da.

Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn wedi llywio’r gwaith o ddatblygu’r strategaeth hon ac wedi bod yn rhan ohono drwyddi draw. Rwyf i eisiau i Gymru fod yn genedl sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwyddorion y

Cenhedloedd Unedig, cenedl sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunan-foddhad ac urddas pobl hŷn bob amser. Eleni, byddwn ni’n dyrannu £100,000 i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn ac ysbrydoli dealltwriaeth gyffredin o effeithiau trawsnewidiol dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Rydym ni’n ffodus bod gennym ni ddealltwriaeth gadarn o amgylchiadau pobl hŷn yng Nghymru. Yn 2019, gwnaethom ni gomisiynu’r Ganolfan am Heneiddio Arloesol ym Mhrifysgol Abertawe sy’n cael ei chydnabod yn rhyngwladol i feincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru o’i chymharu â 3 gwlad arall y DU. Cafodd y mesur hwn ei ddiweddaru yn 2021.

Defnyddiodd y ganolfan amrywiaeth o fesurau i greu Mynegai Oedran y DU. Mae'r canlyniadau'n dangos bod Cymru ar y brig, gyda'r sgôr gyffredinol uchaf, ac yna’r Alban, Lloegr ac yn olaf Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn dangos bod llawer yr ydym ni’n ei wneud yn dda, a dylem ni deimlo'n falch bod tystiolaeth glir o’n hymrwymiad i gefnogi pobl hŷn.

Yn ogystal, mae adroddiadau Cyflwr y Genedl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn 2019 a 2021 yn cynnig sylfaen ystadegol ac empirig gadarn i’w datblygu, sy'n nodi effaith Covid-19. Gyda’i gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn rhoi syniad clir o ble mae angen gweithredu i wella bywydau pobl hŷn ledled Cymru.

Mae pobl hŷn wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chreu'r strategaeth hon a byddan nhw’n ymwneud â'i chyflawni drwy’r Fforwm Cynghori Gweinidogol ar Heneiddio. Byddwn ni'n rhoi llais a phrofiad pobl hŷn wrth wraidd ein proses bolisi ac yn parhau i gefnogi pum grŵp a fforwm cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn, wedi’u cynnal gan Age Cymru. Gyda’i gilydd, mae eu gwaith yn ein helpu ni i ddeall ac ymateb i'r materion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn heddiw. Byddwn ni’n gweithio ledled y llywodraeth i ymdrin â'r amrywiaeth eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar sut yr ydym ni’n heneiddio – o'n systemau iechyd, gofal cymdeithasol a thrafnidiaeth i'r ffordd yr ydym ni’n cymdeithasu, yn gweithio ac yn gofalu am eraill. Nod y strategaeth yw datgloi potensial pobl hŷn heddiw a chymdeithas sy’n heneiddio yfory.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer y strategaeth bron yn barod i'w gyhoeddi, mae'n nodi camau gweithredu, cerrig milltir ac amserlenni clir i fonitro gweithrediad y strategaeth ac fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad â'r Grŵp Cynghori Gweinidogol. Bydd y cynllun cyflawni yn helpu i hoelio sylw timau ar draws Llywodraeth Cymru ar sicrhau bod anghenion pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn ein holl brosiectau a rhaglenni gwaith.

Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â sut yr ydym ni’n edrych i'r dyfodol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn - strategaeth wedi’i datblygu gyda phobl Cymru ac ar eu cyfer. Drwy gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau holl bobl hŷn Cymru, gallwn ni wrthod rhagfarn ar sail oedran a gweithio ar draws cenedlaethau i greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn.

Cwestiynau a thrafodaeth

Dereck Roberts - O ran cefnogaeth Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol gael cynlluniau ar waith ar gyfer ymgysylltu, beth fydd ymateb yr awdurdodau lleol - a yw'r cyllid yn cael ei warantu am dair blynedd? Mae problem o ran y llu o hyrwyddwyr gan fod 24 yn Abertawe! Sut mae ymateb i'r don o chwyddiant? Hefyd, mae ein haelodau yn dal i fod yn nerfus o fynd allan.

Dirprwy Weinidog - Rwy'n disgwyl i'r arian fod yno. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu ond gan San Steffan y mae'r liferau macro-economaidd. Rydym yn ymwybodol bod pobl hŷn yn poeni am fynd allan.

Andrea Nicholas Jones – Mae cynaliadwyedd cyllid yn fater hollbwysig. Roedd y strategaeth flaenorol yn llwyddiannus nes i'r arian beidio â chael ei neilltuo ac iddo gael ei amsugno i gyllidebau awdurdodau lleol, ac i rolau cydlynwyr y strategaeth gael eu dargyfeirio. Sut mae cefnogi pobl hŷn i ddod yn ôl i'r drefn arferol?

Huw Bendall – Rydym yn cefnogi cymunedau sydd o blaid pobl hŷn ac ymgysylltu. Teimlai COPA na chafodd ei drafod ar lefel awdurdod lleol yng Nghaerdydd – realiti ymgysylltu.

Lorraine Morgan - Cafodd brofiadau tebyg. Ni ddaeth yr ymgynghoriadau atom ni. Dim am gymunedau gwledig; mae angen tegwch o amgylch Cymru.

Yr Athro John Williams – Mae hyn yn gyffrous ond yn heriol. Dioddefodd pobl hŷn yn ystod Covid-19 - mae'n drueni nad oes ymchwiliad i Gymru. A allwn ni fod yn sicr bod profiadau pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn Ymchwiliad y DU?

Sion Jones – Rydym yn croesawu'r ffaith bod y strategaeth yn cysylltu â'r Cynllun Gweithredu Dementia a'r Strategaeth Gofalwyr Di-dâl. Mae'n bwysig bod aliniad â'r cyhoeddiad i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol; Mae Alzheimer's Cymru wedi'i gynnwys yn y grŵp arbenigol.

Ymatebion y Dirprwy Weinidog:

- Clywais fod yr arian a ddyrannwyd yn flaenorol i awdurdodau lleol wedi dod i ben.
- Mae'n ddrwg gen i os yw ymgysylltiad Caerdydd yn ymddangos yn symbolaidd gan mai nhw yw'r unig rai i ymgeisio ac ymuno â Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau sydd o blaid Pobl Hŷn.
- Lorraine, mae'n ddrwg gen i os na wnaeth yr ymgynghoriadau eich cyrraedd.
- O ran Ymchwiliad i Gymru yn unig - rwy'n credu ein bod wedi ein rhwymo'n rhy agos â Lloegr. Ond mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud y bydd yn siarad â Phrif Weinidog Lloegr i sicrhau nad troednodyn yn unig fyddwn ni, yn enwedig teuluoedd mewn profedigaeth sydd wedi cyfarfod â Gweinidogion. Rydym am weld gwaith craffu clir ar yr hyn ddigwyddodd.
- Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – rydym yn llawn cyffro am hyn - mae angen iddo fod yn rhad ac am ddim ar yr adeg y mae ei angen e.e. gwasanaethau iechyd meddwl. Mae angen inni edrych ar gyflog byw.

Dereck Roberts – nid yw'r Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol am weld Ymchwiliad i Gymru gan fod yr undebau'n ymwneud ag Ymchwiliad y DU

Lorraine Morgan - yn cefnogi Ymchwiliad i Gymru.

Cam gweithredu

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gael ei gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth 26 Ebrill 2022 12.15 – 13.30 pm i drafod Cyllido Gofal Cymdeithasol.